# Polisi Asesu, Cadw Cofnodion

# ac Adrodd

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CHP) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu parchu hawliau, nid yn unig yr ydym yn addysgu am hawliau plant ond rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – Cysylltir Asesu ag Erthyglau 28, 29 (CRC)

# Polisi Asesu, Cadw Cofnodion

# ac Adrodd Ysgol Gymraeg Pontybrenin

**CYFLWYNIAD**

Diben y polisi hwn yw hysbysu'r holl bobl briodol sy'n gysylltiedig â'n hysgol am ein trefniadau a'n harferion asesu, cofnodi ac adrodd.

Mae asesu, os caiff ei gynllunio'n ofalus, yn ategu dysgu ac addysgu am ei fod nid yn unig yn datgelu'r hyn y mae plentyn wedi'i gyflawni ond hefyd yn rhoi cyfeiriad i athrawon ar gyfer gweithredu a chynllunio ychwanegol.

**Mae asesu yn broses barhaus ac mae sawl ffurf arno:**

- Profion Llythrennedd a Rhifedd Statudol Cenedlaethol sy'n cynnwys darllen Cymraeg a Saesneg, Gweithdrefnau Rhifiadol a Rhesymu Rhifiadol;
- Profion Safonedig (megis Profion Darllen Cymru Gyfan) a all fod yn ddiagnostig yn ogystal â nodi'r safonau a gyflawnwyd;
- Asesiadau Athrawon - proses barhaus y mae athrawon yn cynllunio ar ei chyfer, ac y maent yn seilio'u cofnodion arni;
- Enghreifftio esiamplau o waith yn yr ysgol ac o fewn y clwstwr.

Mae'r Polisi Asesu, Cadw Cofnodion ac Adrodd hefyd yn gysylltiedig â'r polisi ADY.

Mae asesu'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu effeithiol. Mae'n darparu gwybodaeth i staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, ymgynghorwyr a hefyd, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

**Amcanion y polisi hwn**

- Ymdrechu i gyflawni'r safonau academaidd uchaf posib ar gyfer pob un o'n disgyblion, gan ystyried pob plentyn yn unigolyn unigryw sydd â hawl i'r cyfleoedd gorau oll y gallwn eu cynnig.
- Galluogi disgyblion i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio llythrennedd a rhifedd, drwy roi pwyslais priodol ar y ddau a blaenoriaeth uchel iddynt.
- Meithrin diwylliant agored, rhagweithiol lle'r eir i'r afael â materion llwyddiant a phryderon mewn modd priodol a phroffesiynol
- Sicrhau arfer da, drwy fframweithiau tîm a strwythurau cefnogi mewnol.
- Cynnig cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff yn ein hysgol.
- Gwerthfawrogi rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant fel y gellir eu galluogi i ddeall a chefnogi addysg eu plant, lle y bo'n bosib, drwy ymwneud a hynny'n weithredol neu drwy gyfathrebu'n agosach â'r ysgol a chael mwy o arweiniad ganddi.

**Dibenion Asesu:**

- monitro cynnydd ein plant er mwyn eu helpu i wneud cynnydd

- canfod cryfderau ac anghenion ein disgyblion
- darparu gwybodaeth i ddisgyblion, athrawon a rhieni
- nodi disgyblion y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt
- cynllunio strategaethau dysgu ac addysgu priodol
- gwerthuso polisïau cyfredol a'n harferion
- pennu trefniadaeth grŵp
- datgelu cyflawniad a thangyflawniad
- gosod targedau gwella
- darparu gwaelodlin ar gyfer dilyniant
- ysgogi disgyblion.

**SUT RYDYM YN ASESU**:

- tasgau ymarferol, llafar ac wedi'u cofnodi;
- tasgau penagored a chaeedig
- asesu cyfoedion a hunanasesu.

Mae asesu'n broses barhaus o werthuso, er mwyn blaengynllunio cynnydd plentyn unigol. Mae asesu effeithiol yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad plant a llwyddiant strategaeth addysgu/dysgu benodol.

Credwn fod asesu yn ganolog i'r broses ddysgu a dylid ystyried ei fod bob amser yn cefnogi ac yn annog plant ac arfer da.

**Dylai ein hasesu a/neu gofnodion:**

- gydnabod pob agwedd ar gyflawniadau disgybl: ar draws y cwricwlwm, mewn meysydd personol a chymdeithasol, ym mywyd yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.
- helpu disgyblion i adeiladu ar gryfderau a chyflawniadau a goresgyn gwendidau yn eu gwaith, gan felly gyfrannu at gymhelliant a datblygiad personol plentyn
- bod yn seiliedig ar y broses o adolygu a chofnodi sy'n cynnwys disgyblion wrth adnabod cynnydd a chynllunio dysgu yn y dyfodol
- darparu cyfleoedd i gynnwys rhieni
- cefnogi parhad cynnydd wrth i blant symud drwy'r ysgol
- darparu fframwaith i ddefnyddio asesu'n ffurfiannol i werthuso cynllunio a chofnodi
- darparu data er mwyn blaengynllunio
- asesu effeithiolrwydd ein haddysgu wrth helpu disgyblion i ddysgu.

**Y MATHAU O ASESU RYDYM YN EI DDEFNYDDIO:**

- Gwerthusol/Diagnostig
- Crynodol
- Ffurfiannol.

Gall fod yn ddiagnostig/werthusol:

- cadarnhau llwyddiant,
- amlygu anawsterau,
- nodi anghenion dysgu plentyn,
- nodi gofynion addysgu athro

**ASESU CYFUNOL**

Defnyddir Asesu Cyfunol gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn flynyddol wrth ddefnyddio profion SCYA. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer asesiadau cyfunol, a fydd yn darparu data cyfansymiol i'r ysgol.

Mae defnyddio Profion Llythrennedd a Rhifedd Statudol hefyd yn darparu ffurf ar asesu crynodol y gall athrawon ei ddefnyddio i olrhain cynnydd disgybl yn y meysydd hyn. Mae'n darparu data i athrawon sy'n eu hysbysu ynghylch camau nesaf disgyblion yn y cysyniadau mathemategol a'r elfennau llythrennedd amrywiol.

**ASESU FFURFIANNOL**

Mae asesu ffurfiannol yn broses barhaus. Mae'n helpu i greu darlun o gynnydd disgybl a'i gyflawniadau sydd wedyn yn darparu peth o'r wybodaeth angenrheidiol i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch y cam nesaf yn y broses dysgu/addysgu. Defnyddir y math hwn o asesu wrth arsylwi disgyblion, siarad â hwy am eu tasg, marcio'u gwaith neu roi asesiad ysgrifenedig iddynt. Mae asesu ffurfiannol yn darparu cofnod parhaus o gyflawniad plentyn ac yn monitro cynnydd plentyn - gan gynnwys gosod targedau.

**ASESIAD 'IPSATIF' (SY'N SEILIEDIG AR YR HUNAN)**

Mae asesiad 'ipsatif' yn broses barhaus sy'n sicrhau bod y disgybl yn gwneud cynnydd o ran ei anghenion a'i alluoedd personol. Dylai disgwyliad yr athro o'r cynnydd y mae disgybl yn ei wneud ymwneud ag anghenion a galluoedd y disgybl. Os oes gan ddisgybl anawsterau dysgu, dylid gwneud cynnydd drwy gamau bach, cymudiadol, hynod strwythuredig a dylai'r cynnydd a wneir ymwneud â'r disgybl.

Er bod yn rhaid i'r math o asesu rydym yn ei ddefnyddio mewn unrhyw sefyllfa fod yn briodol, mae'n llawer pwysicach i ystyried sut rydym yn defnyddio'r asesiadau hyn.

- Ar ddiwedd y cam cynllunio, mae angen i ni ystyried anghenion ein disgyblion a gofynion y Cwricwlwm i Gymru y FfLlRh a'r FfCD.
- Yn ystod gwaith yn yr ystafell ddosbarth, dylai ein plant gael eu hasesu, er enghraifft, drwy arsylwi a thrafod, a dylid cofnodi eu cynnydd, p'un bynnag sy'n briodol.
- Mae'n rhaid cadw cofnodion yn gyfoes a dylai'r rhain wedyn gyfeirio'r adrodd a'r cynllunio.

**SUT RYDYM YN ASESU?**

Gall dulliau asesu fod naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Ar gyfer swyddogaeth ddiagnostig, byddai asesu ffurfiol yn cynnwys marcio gwaith disgyblion, technegau holi manwl a phrofion safonedig.

Byddai dulliau asesu anffurfiol yn cynnwys arsylwi, gwrando a thrafod (yr athro'n defnyddio holi anffurfiol). Byddai'r dulliau asesu hyn gyda'i gilydd fel offeryn asesu, yn annog cyflawniad, ac yn ysgogi a chefnogi plant.

**YN Y DOSBARTH**

Pan fyddwn yn cynllunio'n gwaith ar thema benodol, mae'n rhaid cynnwys asesiadau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.
Ym mhob maes:

- mae'n rhaid i dasgau gael eu gwahaniaethu, gan ddibynnu ar yr wybodaeth a geir o asesiad plentyn, fel y gall pob plentyn weithio ar ei lefel ei hun a gallu cymhwyso gwybodaeth a strategaethau unigol i amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys y rhai y gellir eu hystyried yn rhai penagored a chaeedig.
- mae angen cynnwys cyfleoedd i blant drafod eu gwaith eu hunain yn y cynllunio; bydd hyn yn helpu i ddangos yr hyn a gyflawnwyd/ddeallwyd, ac a oes angen cefnogaeth ychwanegol a ble byddai angen hynny.
- cyfleoedd i farnu drwy arsylwi a dadansoddi perfformiad disgybl o ran cyd-destun y gweithgaredd penodol.

**YN YR YSGOL**

Bydd gwerthuso'n harfer cyfredol yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu'n addysgol ac y bydd y deiet addysgol rydym yn ei ddarparu i'n plant:

- yn fywiog
- yn berthnasol
- wedi'i gynllunio i sicrhau dilyniant a pharhad effeithiol.

Cyflawnir hyn drwy'r canlynol: sesiynau ADDS rheolaidd i drafod methodoleg a chynnwys; cyfathrebu da drwy'r ysgol; nodi meysydd y mae angen eu hadolygu a thrwy gadw cofnodion sy'n berthnasol. yn llawn gwybodaeth ac yn gyfoes. Os caiff ei gynllunio'n dda, bydd asesu'n helpu athrawon i:

- Gydweddu gwaith â gallu a phrofiadau plentyn
- Nodi lle mae angen cefnogaeth ychwanegol
- Nodi disgyblion talentog a dawnus
- Olrhain cynnydd disgyblion
- Nodi cryfderau a gwendidau mewn cynlluniau gwaith/wrth addysgu cysyniadau.

**Mae amrywiaeth o ffyrdd o asesu plentyn, sy'n cynnwys:**

- Arsylwadau;
- Strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu;
- Asesu cyfoedion a hunanasesu;
- Marcio cyfoedion;
- Asesiadau Personol Cenedlaethol;
- Asesu Crynodol e.e. Profion Darllen Cymru Gyfan;
- Tasgau ymarferol, llafar ac wedi'u cofnodi;
- Tasgau sy'n cael eu cyflawni mewn amrywiaeth o gyd-destunau;
- Tasgau sy'n berthnasol i'r disgybl;
- Tasgau penagored sy'n caniatáu dewis i'r plentyn o ran sut i fynd ati i gyflawni'r dasg, a thasgau caeedig;
- Lle bydd perfformiad mewn gweithgaredd asesu yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol.

**ASESIADAU PERSONOL LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL**

Yn ystod tymor yr haf, cynhelir asesiadau personol llythrennedd a rhifedd statudol ar gyfer yr holl ddisgyblion ac eithrio Blwyddyn 1, y Derbyn a'r Meithrin. Caiff asesiadau personol llythrennedd a rhifedd eu marcio'n fewnol gan staff addysgu'r ysgol. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r profion hyn i ganfod cyrhaeddiad a chynnydd plentyn yn y pynciau craidd. Caiff canlyniadau'r profion eu defnyddio hefyd gan athrawon dosbarth i osod targedau.

**ASESIADAU SYLFAEN**

Prif swyddogaeth asesiad sylfaen yw rhoi gwybodaeth. Mae'n caniatáu dilyniant a pharhad effeithiol. Caiff anghenion disgyblion unigol eu cydnabod, a bydd yr wybodaeth a gesglir yn creu proffil o'r plentyn cyfan. Ar yr un pryd, bydd hyn yn helpu i nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae gwaelodlin ar gyfer blwyddyn derbyn disgybl, sydd wedi'i greu o fewn Sir Abertawe, yn cael ei weithredu o fewn chwe wythnos gyntaf y flwyddyn academaidd.

Asesir gallu a datblygiad plant mewn pum Llwybr Datblygiadol:

- Perthyn
- Cyfathrebu
- Archwilio
- Datblygiad Corfforol
- Lles

Cyfeirir at cwestiynau myfyriol o fewn y ddogfen 'Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir':

• Pa mor dda ydyn ni wedi ystyried y cwestiynau myfyriol am ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar dudalen 44 o Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?
• A ydyn ni wedi treulio'r 6 wythnos cyfan yn gwneud arsylwadau ac yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth asesu ar gyfer pob plentyn?
• I ba raddau rydyn ni'n coladu ac yn crynhoi gwybodaeth asesu ar gyfer pob plentyn?
• A ydyn ni wedi cynnwys asesiadau o sgiliau a galluoedd plant ym maes lles, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, a llythrennedd a rhifedd?

Yn ogystal, ystyrir 'Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesu cychwynnol' o'r ddogfen uchod.

Dylai asesiad sylfaen fod yn anffurfiol ac yn achlysurol drwy ryngweithio a chyfathrebu â'r plant. Dylai helpu i ffurfio'r sail ar gyfer cynllunio datblygiad dysgu'r plentyn. Dylai'r asesiad ystyried cyfraniad y rhieni a sut y gellir hybu partneriaethau â rhieni. Dylai helpu i ddatblygu tueddiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Derbynnir bod gan blant 'hawl cyfartal.... ni waeth beth yw eu hiaith, eu cefndir, eu diwylliant a'u hil'. Caiff yr holl blant eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, mae pa mor gyflym y mae plentyn yn caffael sgiliau a phrosesu gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael ei lywodraethu gan yr iaith sydd gan y plentyn pan ddaw i'r ysgol a'r ddealltwriaeth o'r iaith honno.

## ASESU ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ar gyfer y rhan fwyaf o blant ag anghenion addysgol arbennig, nid oes angen cadw cofnodion amgen, ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cadw cofnodion manylach ac amlach i ddangos cynnydd, y mae'n rhaid eu cysylltu, yn arbennig, â Chynlluniau Datblygu Unigol.

I rai disgyblion, efallai fydd angen cadw cofnodion manylach ar draws y cwricwlwm, ond gydag eraill bydd yn ddigonol cadw cofnodion manylach mewn meysydd penodol, sy'n gysylltiedig â'u Cynlluniau Addysg Unigol. Mae'n rhaid i beth bynnag sydd yn y Cynlluniau Addysg Unigol fod yn ganolog i'r cynllunio ar gyfer y Disgybl hwnnw.
Os nad yw'r cofnodion yn dangos cynnydd digonol, bydd angen rhannu'r broses ddysgu'n gamau mwy cyflawnadwy, h.y. targedau. Os oes gan blentyn Gynllun Datblygu Unigol, fel a amlinellir yn y Côd Ymarfer ar gyfer Nodi ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig, gall elfen adolygu'r Cynllun Datblygu Unigol gael ei ddefnyddio fel cofnod o gynnydd.

**Mae angen i athrawon sicrhau bod y sylwadau a wnaed yn cynnwys yr elfennau canlynol:**

- Natur anhawster y disgybl
- Y ddarpariaeth addysgol benodol
- Staff yr ysgol sy'n ymwneud â hyn, gan gynnwys amlder ac amseru'r gefnogaeth
- Rhaglenni/gweithgareddau/deunyddiau/cyfarpar penodol
- Help gan rieni gartref
- Targedau i'w cyflawni mewn amser penodol
- Gofynion bugeiliol neu feddygol
- Trefniadau monitro ac asesu
- Adolygu trefniadau a dyddiadau
- Meini prawf llwyddiant
- Deilliannau (wedi'u cofnodi yn yr adolygiad).

**(Gweler y Polisi Cynhwysiad ac ADY)**

## CADW COFNODION

Dylai cofnodion:

- Ddangos y cynnydd a gyflawnwyd (Taenlen Tracio)
- Dangos a gafwyd asesiad a ble y gwnaed hyn (Taenlen Tracio)
- Nodi argaeledd tystiolaeth (Seesaw)
- Gallu cael eu dehongli'n hawdd (Taenlen Tracio)

- Cofnodi gwybodaeth gyfrinachol e.e. cofnodion PDG ag ADY wedi'u hychwanegu ar ddiwedd bl.6 neu os bydd plentyn yn trosglwyddo i ysgol arall.

**DIBENION COFNODI**

Mae sawl diben o ran cadw cofnodion:

- bydd y data cyfansymiol rydym yn ei gasglu yn dangos cynnydd yr ysgol wrth gyflawni ei dargedau perfformiad a lle i fynd nesaf
- llywio'n barn broffesiynol er mwyn i ni gyflwyno cwricwlwm sy'n diwallu anghenion ein disgyblion
- gallu defnyddio cofnodion o'r fath i hysbysu rhieni ynghylch cynnydd arwyddocaol disgyblion, gan gynnwys eu cynnydd yn y cwricwlwm cenedlaethol
- dangos sut mae'r ysgol yn symud yn ei blaen

**EGWYDDORION COFNODI**

- rhaid bod diben i'r cofnodion a gadwir
- rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth sy'n dangos sut mae disgyblion wedi datblygu ac i ble i fynd nesaf, yn seiliedig ar farn yr athro
- rhaid i'r sylwadau a wneir fod yn llawn gwybodaeth
- rhaid i gofnodion fod yn hylaw
- rhaid i gofnodion ddangos cynnydd a chyflawniadau'n seiliedig ar feini prawf megis amcanion dysgu sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- dylid defnyddio enghreifftiau o waith plant i'w helpu i ddeall eu cryfderau a'u hanghenion a sut gallent wella
- dylid cofnodi asesiadau crynodol a chynnydd i ddangos a gyflawnwyd targedau perfformiad a gosod rhai newydd

**OLRHAIN CYNNYDD**

Er mwyn tracio ac olrhain cynnydd disgyblion, rydym yn defnyddio ‘Taenlen tracio cynnydd’. Caiff y daenlen ei ddiweddaru’n dymhorol gydag asesiadau athrawon ar draws 6 maes dysgu a phrofiad. Yn ogystal, ceir gwybodaeth gyd-destunol ynglyn a lles y plentyn, presenoldeb, statws ADY a chanlyniadau profion. Ar ôl i’r daenlen gael ei ddiweddaru, bydd ‘Cyfarfodydd Cynnydd’ yn cael eu cynnal er mwyn rhannu gwybodaeth, trafod cynnydd ac amlygu pwyntiau gweithredu ar gyfer unigolion neu’r dosbarth yn gyffredinol.

**ADRODD**

Arferion cyfredol:

- cyfarfodydd athro/rhieni deirgwaith y flwyddyn (tymor yr haf - dewisol)
- adroddiadau diwedd blwyddyn
- pryd bynnag y bydd athro'n teimlo bod angen siarad â rhieni plentyn

**Cyfarfodydd Athro/Rhieni**

I ddechrau, adroddir mewn modd eithaf anffurfiol drwy gyfweliadau athro/rhieni. Gwerthfawrogir barn rheini am eu plant bob amser.  Cymerir gofal bob amser i

ddechrau drwy nodi cryfderau plentyn, gan bwysleisio'r hyn y gall plentyn ei wneud yn hytrach na'r hyn nad yw'n gallu ei wneud. Rhoddir darlun cyffredinol o ddatblygiad y plentyn, nodir y cryfderau a'u canmol, cydnabyddir unrhyw wendidau a thrafodir strategaethau gwella priodol.

**Adroddiadau Diwedd Blwyddyn**
Dylai'r rhain fod yn fanwl gywir, mor gadarnhaol â phosib ac yn llawn gwybodaeth. Rhoddir cyfle i rieni drafod yr adroddiad hwn ag athro'r plentyn a nodi eu hargraff o gynnydd y plentyn. Byddant hefyd yn ymwneud â chamau gwella cynlluniedig a chânt eu gwahodd i gymryd rhan weithredol yn y broses.

**Llinell Amser Adrodd**
Bydd athrawon dosbarth yn adrodd i rieni deirgwaith y flwyddyn, yn nhymor yr hydref, tymor y gwanwyn a thymor yr haf.

- Tymor yr hydref - cwrdd â rhieni, trafod targedau.
- Tymor y gwanwyn - y diweddaraf a thrafod targedau/ffordd ymlaen. Derbyn ffurflen yn nodi targedau y disgybl.
- Tymor yr haf - y diweddaraf, trafodaeth ac adolygu adroddiadau.

**<u>MARCIO GWAITH DISGYBLION</u>**

Mae marcio'n ganolog i asesu. Mae'n rhan annatod o'r broses asesu sy'n rhoi adborth i blant am eu cynnydd ac yn cyfeirio cynllunio gwaith y dyfodol.

Yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin, teimlwn ei bod hi'n hanfodol i ni ymateb i waith disgybl mor gadarnhaol â phosib, er mwyn helpu pob disgybl i gyflawni ei botensial. Rydym yn ceisio rhoi hwb i hunan barch a hyder plant a'u helpu i ddarganfod eu cyflawniadau a'u gwendidau drostynt hwy eu hunain. Anogir disgyblion i ymateb i'w gwaith eu hunain mewn ffordd gadarnhaol.
Rhoddir adborth am ansawdd eu gwaith ac awgrymiadau ar sut i'w wella.
Gall pob disgybl wneud cynnydd o'i lefel bresennol, yn seiliedig ar asesiadau o'i waith/weithgareddau ac adborth arnynt.
Mae'r adborth a roddir i ddisgyblion a staff yn rhoi ymdeimlad clir iawn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.
Defnyddir gwybodaeth asesu mewn ffordd drefnus i nodi anghenion dysgu a chynllunio profiadau dysgu yn y dyfodol.

**Dylai wneud y canlynol:**

- rhoi adborth cadarnhaol i'r disgyblion ar eu llwyddiant, ac arweiniad i wella eu perfformiad os yw'n bosib
- nodi lle mae'r disgybl yn cael anhawster ac felly'n peri trafodaeth rhwng y disgybl a'r athro
- cynorthwyo cynllunio gwersi'r dyfodol
- hysbysu disgyblion, athrawon, rhieni a phobl berthnasol eraill (e.e. safoni/cymedroli.

Ni ofynnir am sillafu, atalnodi a gramadeg ym mhob darn o ysgrifennu oherwydd ni all plant ganolbwyntio'n effeithiol ar ormod o bethau ar yr un pryd. Pan orffennir

gwaith, gofynnir i blant wirio am wallau y gallent eu nodi yn eu gwaith eu hunain pan fyddant yn darllen drwyddo. Ni ddylid gofyn iddynt gywiro pob gwall sillafu neu byddant yn debygol o gamsillafu'n fwy neu wastraffu amser yn chwilio am eiriau, oni bai fod y plentyn yn sillafwr da iawn, ac mae ychydig iawn o gamsillafu yn y gwaith, a'r athro'n teimlo y dylai'r plentyn fod yn gallu sillafu'r geiriau. Defnyddir peniau /pensiliau ‘Gwyrdd Gwella’ gan ddisgyblion i gofnodi unrhyw gywiriadau sydd wedi eu gwneud yn dilyn adborth gan yr athro. Y ffordd orau o addysgu a chywiro nodweddion ysgrifenyddol yw fel rhan o'r broses ddrafftio, pan fydd y bwriad dysgu'n gallu canolbwyntio'n benodol ar yr agwedd hon o'r gwaith. Mae defnyddio côd marcio, gan athrawon a disgyblion, yn cyfoethogi hyn. Yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, caiff sillafu a chyfeiriad llythrennau eu haddysgu'n benodol, ac ni chânt eu cywiro yn ystod ysgrifennu sy'n datblygu. Eir i'r afael â hyn mewn gweithgareddau dilynol.

Bydd adborth staff yn benodol i'r agweddau y gofynnwyd i'r plant roi sylw iddynt. Mae hyn yn golygu na fydd rhai agweddau o'r gwaith yn cael eu marcio, ond dros amser, caiff yr agweddau hyn eu marcio pan ganolbwyntir arnynt mewn gweithgareddau a thasgau dilynol. Pan fydd y gwaith a wneir i'w gyhoeddi, mae angen iddo fod o'r safon uchaf bosib fel modd o ddangos dyheadau uchel i'r plant.

## EFFEITHIOLRWYDD MARCIO

**Dylai marcio effeithiol:**

- ddarparu tystiolaeth o gyrhaeddiad a chyflawniad
- bod yn ystyrlon
- cyfeirio disgyblion drwy nodi eu cryfderau dylai, lle bynnag y bo modd, arwain at ddisgyblion sy'n gallu teimlo boddhad ac ymdeimlad o gyflawniad, ac ysgogi'r dysgwr
- cyfeirio disgyblion drwy nodi meysydd gwendid (cyfyngiadau) a'u helpu i gyd-drafod targedau dysgu tymor byr.
- ystyried potensial a gallu disgyblion
- fod yn werth yr amser a'r ymdrech a dreulir arno

**Mae angen amser ar ddisgyblion i:**

- ddeall/cymathu'r adborth
- gofyn i'r athro am help
- gweithredu ar yr adborth, e.e.cywiriadau lle y bo'n briodol gyda ‘Gwyrdd Gwella’

## CYSONDEB MARCIO

Mae athrawon yn defnyddio marcio bob dydd i asesu a yw disgyblion wedi cyflawni eu deilliannau dysgu.

**Symbolau marcio**
Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o symbolau marcio, gan ddibynnu ar oed y disgyblion. Mae'r holl ddisgyblion yn deall y symbolau a ddefnyddir gan y disgyblion.

Wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, fe'u hanogir i ddefnyddio'r symbolau eu hunain wrth farcio cyfoedion ac ateb cwestiynau a ofynnir ar ddiwedd darn o waith. Gweler y côd marcio

Defnyddir symbolau megis wynebau yn ogystal â sylwadau gan ddisgyblion i nodi pa mor dda maent yn teimlo eu bod wedi cyflawni'r amcan dysgu.

**Crynodeb o'r adborth/marcio a ddefnyddir yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin**

Rhoddir adborth ar sawl ffurf:

- Darperir adborth dieiriau ar ffurf iaith y corff a mynegiant wyneb; mae staff yn ymwybodol o hyn ac yn ymdrechu i sicrhau y rhoddir adborth dieiriau priodol bob amser;
- Rhoddir adborth llafar yn rheolaidd ac fe'i hystyrir yr un mor bwysig ag adborth ysgrifenedig ac weithiau'n fwy effeithiol na hynny;
- Wrth roi adborth llafar, mae staff yn ymwybodol iawn o'r effaith y gall tôn y llais ei chael ar ystyr yr hyn a ddywedir, ac mae staff yn ceisio sicrhau'n gyson eu bod yn defnyddio tôn llais addas;
- Caiff gwaith ei farcio yn erbyn y bwriad dysgu / meini prawf llwyddiant;
- Rhoddir adborth ysgrifenedig sy'n cynnwys marcio cau'r bwlch ar ddarnau agored o waith, gan wneud sylwadau ar lwyddiannau a sut i wella;
- Caiff tasgau caeedig sy'n ymwneud â marcio cywir ac anghywir eu marcio gan ddefnyddio ticiau ar gyfer atebion cywir, dotiau ar gyfer atebion anghywir, sylw byr ar gyflawniad y bwriad dysgu ac ymadrodd neu frawddeg Gymreig am y gwaith;
- Defnyddir adborth darluniadol a chodau i alluogi'r plant i ddatgodio'n hawdd;

Mae disgyblion yn deall rheol bwysig iawn:

- DARLLENWCH SYLWADAU'CH ATHRO.
- GWEITHREDWCH ARNYNT GYDA'R GWYRDD GWELLA.
- OS NAD YDYCH YN DEALL UNRHYW BETH MAE'CH ATHRO YN EI YSGRIFENNU, GOFYNNWCH.

**D.S.**

Bydd marcio weithiau'n gofyn am sylw, ac felly mae angen i ni hefyd sicrhau priodoldeb, cysondeb a pharhad pan fyddwn yn gwneud sylw ar waith disgybl, fel bod ei waith yn gallu datblygu'n gadarnhaol ac yn bwrpasol. Er mwyn i ddisgyblion ddweud y gwahaniaeth rhwng nodweddion da eu gwaith a'r materion i'w cywiro neu eu gwella, bydd athrawon yn sicrhau nad yw sylwadau'n amwys. Anogir disgyblion hefyd i hunanwerthuso a myfyrio ar eu dysgu. Mae cyfoedion hefyd yn marcio gwaith yn gyson.

## <u>GOSOD TARGEDAU DISGYBLION</u>

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, rydym yn eu hyfforddi i hunanwerthuso'u gwaith yn fwy. Rydym yn helpu plant i ddadansoddi gwaith a gosod targedau eu hunain. Bydd y broes yma'n un a fydd yn digwydd yn barhaus ac yn rhan annatod o'u harfer bob dydd ar lawr y dosbarth. Gall yr adborth a'r targedau gael eu gosod ar lafar neu'n ysgrifenedig. Pan fydd plant yn gwneud gwaith a gaiff ei asesu, yna dylai'r targedau y mae athrawon yn eu gosod ar gyfer disgyblion neu'n

cytuno arnynt gyda'r plant, fod yn glir i'r disgyblion, boed yn darged sydd wedi’i rhoi neu yn weledol ar daflenni tasgau, yn y llyfrau etc.

**ADOLYGIAD ASESU, COFNODI AC ADRODD**

Bydd y cydlynydd asesu'n sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes asesu ac yn gyfrifol am gynllunio a threfnu hyfforddiant. Bydd hefyd yn cefnogi sesiynnau HMS fel y bônt yn briodol ac yn cynnig cefnogaeth a chyngor i staff a llywodraethwyr yn ôl y galw.

| **Mabwysiadu’r Polisi** |
| --- |
| Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 25/6/24 |
| Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 25/6/24 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |

## Atodiad A

## Canllawiau Marcio Gwaith Disgyblion Yr Ysgol Waelod

Mae marcio gwaith disgyblion yn hanfodol ac yn rhan annatod o rôl yr athro.

Mae'n bwysig bod athrawon yn delio â hyn yn feddylgar ac yn ystyried gwaith y plant mewn modd sensitif.

Mae'n bwysig fod yr athro/athrawes yn marcio'r gwaith ym mhresenoldeb y disgybl, fel bod y disgybl yn cael canmoliaeth neu'n cael eglurhad am unrhyw waith nad yw wedi ei lwyr feistroli.

Dylai sylwadau ysgrifenedig yr athro fod yn bositif, wedi eu hysgrifennu mewn modd sy'n galw am ymateb neu drafodaeth ac yn berthnasol i'r dasg.

Os yw disgybl yn dangos parch at ei waith, ni dylai'r athro byth danseilio hynny drwy farcio anniben a di-feddwl. Dylid marcio mewn **beiro coch**.

**Mae marcio effeithiol yn dangos i ddisgyblion:**

- Ble mae'r gwallau – tynnu sylw at beth sydd angen ei wella;
- Beth sydd wedi llwyddo a pham;
- Beth yw'r cam nesaf, neu'r targed ar gyfer gwella;

# Cynllun Marcio Derbyn, bl.1 a 2

| | |
|---|---|
| **AD** | Wedi llwyddo yn yr Amcan Dysgu |
| **ADRh** | Wedi llwyddo'n rhannol yn yr Amcan Dysgu |
| **ADT** | Angen trafod yn bellach |
| ○ | Cam ddefnydd o briflythyren / llythyren fach / Diffyg atalnodi |
| **1:1** | Gweithio 1:1 |
| **All** | Adborth llafar |
| **A** | Annibynnol |
| **YH** | Ychydig o help |
| **H** | Llawer o help |
| ☺ / * | Ymateb gweledol i'r disgybl |
| ✓ | Cywir |

## Atodiad B

# Canllawiau Marcio Gwaith Disgyblion Yr Ysgol Uwch

Mae marcio gwaith disgyblion yn hanfodol ac yn rhan annatod o rôl yr athro.

Mae'n bwysig bod athrawon yn delio â hyn yn feddylgar ac yn ystyried gwaith y plant mewn modd sensitif.

Mae'n bwysig bod yr athro/athrawes yn marcio’r gwaith yn gyson a phan fo hynny’n bosib, ym mhresenoldeb y disgybl, fel bod y disgybl yn cael canmoliaeth neu'n cael eglurhad am unrhyw waith nad yw wedi ei lwyr feistroli.

Dylai sylwadau ysgrifenedig yr athro fod yn bositif, wedi eu hysgrifennu pan fo hynny’n bosib mewn modd sy'n galw am ymateb neu drafodaeth ac yn berthnasol i’r dasg.

Os yw disgybl yn dangos parch at ei waith, ni ddylai'r athro byth danseilio hynny drwy farcio anniben a di-feddwl. Dylid marcio mewn **beiro coch**.

**Mae marcio effeithiol yn dangos i ddisgyblion:**

- Ble mae’r gwallau – tynnu sylw at beth sydd angen ei wella;
- Beth sydd wedi llwyddo a pham;
- Beth yw’r cam nesaf, neu’r darged ar gyfer gwella;

# Cynllun Marcio yr Ysgol Uwch

| | |
|---|---|
| AD | Wedi llwyddo yn yr Amcan Dysgu |
| ADRh | Wedi llwyddo'n rhannol yn yr Amcan Dysgu |
| ADT | "Dwi ddim yn meddwl dy fod wedi deall yr Amcan Dysgu" - angen trafod. |
| ALl | Adborth Llafar |
| (T) | Targed personol disgybl |
| ____ | Cam sillafu |
| ○ | Diffyg atalnodi |
| ? | Nid yw'r rhan yma'n gwneud synnwyr |
| = | Cam ddefnydd o briflythyren / llythyren fach |
| A YH H | Annibynnol / Ychydig o Help / Help |
| // | Dechrau paragraff newydd |
| ~~~ | Gair Saesneg |
| ✓ / . C | Cywir / Anghywir |
| [ ] | Ffurf anghywir y ferf |
| / | Rwyt ti wedi anghofio bwlch bys |